**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

1 Mawrth 2022

Annwyl Llywydd

**BIL ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL (CYMRU)**

Ar 1 Hydref 2021, anfonais Fil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) (‘y Bil’) atoch, er mwyn ichi benderfynu a yw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth a oedd yn gofyn am gydsyniad Gweinidog perthnasol y Goron o dan Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf Llywodraeth Cymru"). Mae adran 128 o'r Bil yn darparu y caiff personau a chyrff penodedig roi gwybodaeth i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn") at ddibenion arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Comisiwn. Mae'r personau a'r cyrff a bennir yn y ddarpariaeth yn cynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Swyddfa Myfyrwyr, sy'n 'awdurdodau a gadwyd yn ôl' o dan ddarpariaethau paragraff 8(3) o Ran 1 o Atodlen 7(B) i Ddeddf Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, caiff adran 128 o'r Bil ei ddal gan baragraff 8(1)(a) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru, ac felly mae angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i’w ddwyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol. Nid oedd y cydsyniad wedi dod i law ar yr adeg yr anfonwyd y Bil atoch.

Mae’r Bil hefyd yn darparu ar gyfer system brentisiaethau newydd i Gymru ac yn diddymu nifer o'r darpariaethau presennol yn Neddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009. Mae diddymu'r adrannau hyn yn gyfystyr â dileu swyddogaeth un o Weinidogion y Goron, ac o ganlyniad caiff ei ddal gan ddarpariaethau paragraff 11(2) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru bellach wedi ysgrifennu at Weinidog y Gymraeg ac Addysg i roi cydsyniad mewn perthynas â'r ddwy ddarpariaeth hyn yn y Bil.

Yn gywir



**MARK DRAKEFORD**